OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 537

# Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005

## RHAN 4

## DYRANNU AC ADDASU CWOTA

### Dyrannu cwota o'r gronfa genedlaethol

**18.** Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddyrannu cwota o'r gronfa genedlaethol yn unol â deddfwriaeth y Gymuned.

### Ailddyrannu cwota dros dro

**19.**—(1) mae'r rheoliad hwn yn gymwys lle mae gan gynhyrchwr gwota sydd wedi'i gofrestru fel ei gwota/chwota mewn perthynas â daliad sydd —

(a) unrhyw bryd yn ystod blwyddyn gwota yn gyfan neu'n rhannol yn destun hysbysiad a gyflwynwyd, neu ddatganiad a wnaed, o dan orchymyn a wnaed yn unol ag adran 17(1) Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) yn gwahardd neu'n rheoleiddio symud gwartheg godro; neu

(b) wedi'i leoli yn gyfan neu'n rhannol o fewn ardal a ddynodwyd, unrhyw bryd yn ystod blwyddyn gwota, gan orchymyn a wnaed yn unol ag adran 1 Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985(**2**).

(2) At ddibenion ailddyrannu cwota y cyfeirir ato yn Erthygl 10(3) Rheoliad y Cyngor ac yn ddarostyngedig i baragraff (10), caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud dyfarniad yn ailddyrannu dros dro i gynhyrchwr ran o unrhyw gwota sydd dros ben yn unol â darpariaethau paragraffau (3) i (5).

(3) Dim ond ar gyfer blwyddyn gwota pryd y mae'r hysbysiad, y datganiad neu'r gorchymyn y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yn effeithiol neu'n parhau i fod mewn grym y gellir gwneud dyfarniad.

(4) Maint unrhyw gyfryw ddyfarniad yw'r isaf o —

(a) y swm yn cyfateb i 16 litr fesul buwch gymwys fesul diwrnod cymwys yn y flwyddyn gwota y cyfeirir ati ym mharagraff (3); a

(b) y swm yn cyfateb i gynhyrchiant y cynhyrchwr sy'n fwy na'r cwota y mae ganddo neu ganddi hawl iddo yn y flwyddyn gwota honno.

(5) Nid yw dyfarniad a wneir i gynhyrchwr o dan y rheoliad hwn ar gael mewn perthynas â blwyddyn gwota pryd y mae'r cynhyrchwr yn —

(a) trosglwyddo cwota nas defnyddiwyd yn unol â rheoliad 9 neu 13;

(b) trosglwyddo cwota dros dro yn unol â rheoliad 15; neu

(c) prynu buchod neu heffrod cyflo at ddibenion llaeth,

(**1**) 1981 p.22.
(**2**) 1985 p.48; diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diogelu Bwyd 1991 (p.16), adran 51(2), gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28), adran 40(1) ac Atodlen 5, paragraff 6(1) a (3), gan O.S. 1999/1756 a chan O.S. 2000/2040.

oni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn fodlon i'r cytundeb i drosglwyddo, trosglwyddo dros dro neu brynu cwota, gael ei wneud cyn cyflwyno'r hysbysiad neu wneud y datganiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a) neu, yn ôl y digwydd, cyn i'r gorchymyn y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b) ddod i rym.

(6) Os bydd angen dyraniad cwota dros dro ar gynhyrchwr o dan y rheoliad hwn, mae'n rhaid iddo neu iddi gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol gais yn y cyfryw ffurf ag y gall y Cynulliad Cenedlaethol yn rhesymol ei mynnu.

(7) mae'n rhaid i gais y cyfeirir ato ym mharagraff (6) gyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol heb fod yn hwyrach na 30 Ebrill ar ôl i'r flwyddyn gwota pryd roedd y daliad, neu ran o'r daliad, dan sylw —

(a) yn destun hysbysiad perthnasol neu ddatganiad perthnasol; neu

(b) mewn ardal a oedd wedi'i dynodi drwy orchymyn perthnasol, ddod i ben.

(8) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn dyfarnu i gynhyrchwr ailddyraniad dros dro o unrhyw gwota sydd dros ben yn unol â'r rheoliad hwn, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu pob prynwr y mae'r cynhyrchwr yn danfon cynnyrch iddo neu iddi o'r ailddyraniad hwnnw.

(9) Dim ond o gyfanswm y cwotâu y cyfeirir atynt yn rheoliad 27(3)(a) a 30(9)(a) y gall y Cynulliad Cenedlaethol ddyfarnu ailddyraniad cwota dros dro unwaith y penderfynir ar y cyfanswm o dan y rheoliadau hynny.

(10) Ni fydd heffer gymwys sy'n fuwch gymwys at ddibenion blwyddyn gwota yn fuwch gymwys at ddibenion unrhyw flwyddyn gwota ar ôl hynny.

(11) Yn y rheoliad hwn —

(a) ystyr “heffer gymwys” yw heffer gymwys sy'n bwrw llo am y tro cyntaf ar ddiwrnod lloia perthnasol;

(b) ystyr “buwch gymwys”, at ddibenion blwyddyn gwota, yw heffer gymwys sy'n bwrw llo am y tro cyntaf pan fydd nifer y heffrod cymwys yn fwy na'r rhif cyfnewid, p'un a yw adeg y cyfryw loia yn dod o fewn y flwyddyn gwota honno ai peidio;

(c) ystyr “heffer gymwys” yw heffer a oedd —

(i) ar y dyddiad y cyflwynwyd hysbysiad perthnasol neu y gwnaed datganiad perthnasol, naill ai ar dir a oedd yn destun yr hysbysiad hwnnw neu, yn ôl y digwydd, y datganiad hwn; neu

(ii) ar y dyddiad y daeth gorchymyn perthnasol i rym, ar dir a oedd yn destun y gorchymyn hwnnw;

(ch) ystyr “diwrnod cymwys”, o ran unrhyw fuwch gymwys, yw'r diwrnod y mae'n bwrw llo a phob diwrnod ar ôl hynny neu ran o ddiwrnod ar ôl hynny pan fydd yr hysbysiad perthnasol, y datganiad perthnasol neu'r gorchymyn perthnasol dan sylw yn effeithiol neu, yn ôl y digwydd, yn parhau i fod mewn grym;

(d) ystyr “datganiad perthnasol” yw datganiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a);

(dd) ystyr “hysbysiad perthnasol” yw hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a);

(e) ystyr “gorchymyn perthnasol” yw gorchymyn y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b).

(12) Yn y rheoliad hwn, ystyr “diwrnod bwrw llo perthnasol”, o ran heffer gymwys, yw diwrnod sy'n dod —

(a) mewn achos lle mae'r hysbysiad perthnasol, y datganiad perthnasol neu'r gorchymyn perthnasol dan sylw yn effeithiol neu mewn grym am gyfnod sy'n dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn gwota pryd y'i cyflwynir neu, yn ôl y digwydd, pryd y'i gwneir neu cyn diwedd y flwyddyn gwota honno, o fewn y cyfnod o ddeuddeg mis yn dod i ben ar y dyddiad y mae'r hysbysiad, y datganiadau neu'r gorchymyn hwnnw yn peidio â bod yn effeithiol neu, yn ôl y digwydd, mewn grym; a

(b) mewn unrhyw achos arall, o fewn y flwyddyn gwota y cyflwynir neu y gwneir yr hysbysiad perthnasol, y datganiad perthnasol neu'r gorchymyn perthnasol neu unrhyw bryd ar ôl hynny pan fydd yr hysbysiad perthnasol, y datganiad perthnasol neu'r gorchymyn perthnasol yn effeithiol neu mewn grym.

(13) Yn y rheoliad hwn, ystyr "rhif cyfnewid" yw'r cyfanrif agosaf i 20% o gyfanswm y buchod llaeth ar dir —

(a) mewn achos lle mae'r tir yn destun hysbysiad perthnasol neu ddatganiad perthnasol, ar y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad neu'r datganiad hwnnw; neu

(b) mewn achos lle mae'r tir yn destun gorchymyn perthnasol, ar y dyddiad y daw'r gorchymyn hwnnw i rym,

a lle mae 20% o'r cyfanswm hanner ffordd rhwng dau gyfanrif, y cyfanrif gwastad agosaf y tybir mai ef yw'r un agosaf.

### Dyrannu cwota yn arbennig

**20.**—(1) mae'r rheoliad hwn yn gymwys o achos camgymeriad a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol, —

(a) os na ddyrannwyd unrhyw gwota i berson; neu

(b) os dyrannwyd llai o gwota nag y byddai wedi'i ddyrannu iddo neu iddi pe na fyddai'r camgymeriad wedi'i wneud.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddyrannu i'r person hwnnw o'r gronfa genedlaethol y cyfryw gwota ag a fydd yn gwneud iawn, yn llwyr neu'n rhannol, am y camgymeriad hwnnw.

### Addasu cwota: cyffredinol

**21.**—(1) At ddibenion —

(a) darpariaethau Erthygl 6(2) a (5) Rheoliad y Cyngor (sy'n ymwneud â newid o werthiannau uniongyrchol i ddanfon ac fel arall); a

(b) Erthygl 11(2) Rheoliad y Cyngor (sy'n ymwneud â chynhyrchwyr yn amnewid ac yn newid prynwyr),

caiff cynhyrchwr wneud cais i addasu cwota gwerthiannau uniongyrchol yn gwota cyfanwerthol neu gwota cyfanwerthol yn gwota gwerthiannau uniongyrchol naill ai dros dro neu'n barhaol.

(2) Os bydd cynhyrchwr am addasu cwota mewn unrhyw flwyddyn gwota, mae'n rhaid iddo neu iddi gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol gais yn y cyfryw ffurf ag y gall y Cynulliad Cenedlaethol yn rhesymol ei mynnu —

(a) yn nodi —

(i) cyfanswm (os o gwbl) cwota gwerthiannau uniongyrchol, cwota cyfanwerthol, gwerthiannau uniongyrchol a danfoniadau'r cynhyrchwr hwnnw ar gyfer y flwyddyn gwota y gwneir y cais,

(ii) faint o gwota nas defnyddiwyd a ddelir ganddo neu ganddi pan wneir y cais, a

(iii) faint o gwota y mae am i'r Cynulliad Cenedlaethol ei addasu; a

(b) gan gynnwys y cyfryw wybodaeth arall ag y gall y Cynulliad Cenedlaethol yn rhesymol ei mynnu er mwyn asesu a fodlonir gofynion Erthygl 6(2) a (5) Rheoliad y Cyngor ac Erthygl 7 Rheoliad y Comisiwn (sy'n ymwneud â chynnwys braster cynrychioliadol).

(3) mae'n rhaid i'r cais gyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol —

(a) os bydd cwota yn cael ei addasu'n barhaol, heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr yn y flwyddyn gwota y bwriedir i'r addasiad ddod i rym; a

(b) os bydd cwota yn cael ei addasu dros dro, heb fod yn hwyrach na 14 Mai yn y flwyddyn ar ôl diwedd y flwyddyn gwota y bwriedir i'r addasiad dros dro ddod i rym.

**Addasu cwota: cyfyngiadau ar drosglwyddo cwota a addaswyd yn y flwyddyn addasu**

**22.**—(1) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i gwota a addaswyd yn barhaol a drosglwyddir gyda daliad yn unol ag Erthygl 17 Rheoliad y Cyngor.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (6), lle mae cynhyrchwr wedi addasu cwota yn barhaol mewn unrhyw flwyddyn gwota, ni ddylai drosglwyddo yn hwyrach yn y flwyddyn gwota honno gwota o'r math y mae wedi addasu iddo, p'un ai dros dro neu fel arall.

(3) Lle mae cynhyrchwr sydd wedi addasu cwota yn barhaol mewn unrhyw flwyddyn gwota yn gwneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am gael ei r(h)yddhau o'r cyfyngiad ym mharagraff (2), caiff y Cynulliad Cenedlaethol, os yw'n fodlon ynghylch y materion a nodir ym mharagraff (5), ryddhau'r cynhyrchwr hwnnw o'r cyfyngiad hwnnw.

(4) Bydd rhyddhad o'r cyfyngiad ym mharagraff (2) i'r graddau y mae'n ofynnol i ganiatáu trosglwyddo'r cwota y cred y Cynulliad Cenedlaethol nad yw wedi ei ddefnyddio eto yn yr achos penodol.

(5) Y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) yw —

(a) o ran y cynhyrchwr, fod amgylchiadau eithriadol wedi arwain at gwymp sylweddol yn y llaeth a gynhyrchir neu fethiant sylweddol i sicrhau cynnydd cynlluniedig yn y llaeth a gynhyrchir; a

(b) na allai'r cynhyrchwr fod wedi rhagweld yr amgylchiadau hynny na'u hosgoi pan addaswyd ei gwota/chwota yn barhaol.

(6) Nid yw'r cyfyngiad ym mharagraff (2) yn gymwys —

(a) mewn achos lle mae'r addasiad parhaol o gwota gwerthiannau uniongyrchol i gwota cyfanwerthol, os addasodd y cynhyrchwr gwota gwerthiannau uniongyrchol i gwota cyfanwerthol dros dro yn y flwyddyn gwota flaenorol; neu

(b) mewn achos lle mae'r addasiad parhaol o gwota cyfanwerthol i gwota gwerthiannau uniongyrchol, os addasodd y cynhyrchwr gwota cyfanwerthol i gwota gwerthiannau uniongyrchol yn y flwyddyn gwota flaenorol.

(7) mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau y mae'n rhaid ystyried eu bod yn eithriadol at ddibenion paragraff (5) —

(a) marwolaeth cynhyrchwr neu ei (h)anallu i redeg ei fusnes/busnes am gyfnod hir o ganlyniad iddo neu iddi fynd yn sâl, cael ei (h)anafu neu fynd yn anabl;

(b) trychineb naturiol sy'n effeithio'n ddifrifol ar y daliad;

(c) adeiladau a ddefnyddir at ddibenion cynhyrchu llaeth yn cael eu dinistrio'n ddamweiniol;

(ch) achos o salwch neu glefyd sy'n effeithio'n ddifrifol ar y fuches laeth;

(d) cyflwyno hysbysiad neu wneud datganiad o dan orchymyn yn unol ag adran 17(1) Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 neu wneud gorchymyn yn unol ag adran 1 Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985;

(dd) colli rhan sylweddol o'r tir porthiant o ganlyniad i'r daliad neu ran o'r daliad yn cael ei brynu/phrynu yn orfodol; ac

(e) lle mae'r trosglwyddai yn denant, cyflwyno rhybudd i ymadael yn dod o fewn unrhyw achos a nodir yn Rhan I Atodlen 3 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986(**3**).

(**3**) 1986 p. 5; diwygiwyd Rhan I Atodlen 3 gan Ddeddf Daliadau Amaethyddol (Diwygio) 1990 (p.15) adran 1.

**Addasu cwota prynwr**

**23.**—(1) Lle mae cwota cyfanwerthol deiliad cwota yn cael ei gynyddu neu ei leihau yn unol â deddfwriaeth y Gymuned neu'r Rheoliadau hyn, mae cwota prynwr unrhyw brynwr y mae'r cwota cyfanwerthol yn gymwys iddo neu iddi yn cael ei gynyddu neu ei leihau i gyfateb â hynny.

(2) O ran trosglwyddiad y mae Erthygl 11(2) Rheoliad y Cyngor yn gymwys iddo (sy'n ymwneud â chynhyrchwyr yn amnewid ac yn newid prynwyr), mae'n rhaid i brynwr y cynyddwyd ei gwota/chwota drwy'r cyfryw drosglwyddiad gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol gais am i'w gwota/chwota fel prynwr gael ei gynyddu yn ôl y maint penodol.

(3) mae'n rhaid i gais y cyfeirir ato ym mharagraff (2) gynnwys —

(a) datganiad yn nodi manylion y trosglwyddiad; a

(b) datganiad a wnaed ac a lofnodwyd gan y cynhyrchwr fod y prynwr y bydd ei gwota/chwota yn lleihau wedi'i hysbysu o'r manylion a nodir yn y cais y cyfeirir ato ym mharagraff (2).

(4) Mae'n rhaid i'r cais y cyfeirir ato ym mharagraff (2) —

(a) cyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol heb fod yn hwyrach na 14 Mai yn y flwyddyn gwota yn union ar ôl y flwyddyn gwota y digwyddodd y trosglwyddiad;

(b) cael ei wneud yn y cyfryw ffurf ag y gall y Cynulliad Cenedlaethol yn rhesymol ei mynnu.

(5) Ni ddylai'r maint penodol gynnwys y cwota cyfanwerthol cofrestredig sy'n weddill ac eithrio i'r graddau y mae'r cynnydd a gofrestrir yn unol â pharagraff (8) yn cynnwys y cwota hwnnw.

(6) Bydd y cwota cyfanwerthol cofrestredig sydd ar ôl yn dal i fod ar gael i'r prynwr gwreiddiol.

(7) Os na chofrestrir digon o gwota gyda'r prynwr gwreiddiol i ddarparu ar gyfer danfoniadau a wnaed gan y cynhyrchwr cyn y dyddiad y newidiwyd y prynwr, mae'n rhaid dyrannu unrhyw gwota ychwanegol a geir gan y cynhyrchwr i'r prynwr gwreiddiol nes y darperir ar gyfer yr holl ddanfoniadau i'r prynwr gwreiddiol a wnaed gan y cynhyrchwr cyn y dyddiad hwnnw ar ôl unrhyw addasiad ar gyfer cynnwys braster menyn yn unol ag Erthygl 10(1) Rheoliad y Comisiwn.

(8) Ar ddechrau'r flwyddyn gwota yn union ar ôl y flwyddyn gwota y cafwyd y cynnydd y cyfeirir ato ym mharagraff (2), mae'n rhaid cynyddu cwota prynwr y prynwr y mae'r cynhyrchwr newydd gofrestru ag ef neu â hi yn ôl y cyfryw ran o'r cwota cyfanwerthol cofrestredig sy'n weddill gan y cynhyrchwr ag a gynhwysir yn y maint penodol.

(9) Os effeithir ar y cwota sydd ei angen i ddarparu ar gyfer danfoniadau a wnaed i brynwr gwreiddiol gan —

(a) cwota yn cael ei drosglwyddo i'r cynhyrchwr o dan y Rheoliadau hyn; neu

(b) addasiad ar gyfer cynnwys braster menyn yn unol ag Erthygl 10(1) Rheoliad y Comisiwn,

mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ddarostyngedig i baragraff (10), wneud y cyfryw addasiadau yng nghwota prynwr y prynwr gwreiddiol y mae'r cynhyrchwr newydd gofrestru ag ef neu â hi, ag sydd eu hangen i sicrhau bod digon o gwota wedi'i gofrestru gyda'r prynwr gwreiddiol i ddarparu ar gyfer danfoniadau a wnaed.

(10) mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud addasiad yn unol â pharagraff (9) ar ôl i'r flwyddyn gwota dan sylw ddod i ben.

(11) Lle mae gan gynhyrchwr gwota sydd wedi'i gofrestru â dau neu ragor o brynwyr, caiff y cynhyrchwr wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol i newid y cwota sydd wedi'i gofrestru rhyngddynt dros dro, ac eithrio i'r graddau y mae angen y cwota sydd wedi'i gofrestru â phob un ohonynt i ddarparu ar gyfer danfoniadau a wnaed ganddo neu ganddi cyn dyddiad y trosglwyddiad ar ôl unrhyw addasiad ar gyfer cynnwys braster menyn yn unol ag Erthygl 10(1) Rheoliad y Comisiwn.

(12) mae'n rhaid i gynhyrchwr sy'n gwneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â pharagraff (11) gyflwyno gyda'i gais/chais —

(a) datganiad yn nodi manylion y cwota sydd i'w ailgofrestru dros dro; a

(b) datganiad a wnaed ac a lofnodwyd gan y cynhyrchwr fod y prynwr y bydd ei gwota/chwota yn lleihau wedi'i hysbysu o'r manylion a nodir yn y datganiad.

(13) mae'n rhaid i'r ddau ddatganiad y cyfeirir atynt ym mharagraff (12) —

(a) fod yn y cyfryw ffurf ag y gall y Cynulliad Cenedlaethol yn rhesymol ei mynnu; a

(b) cyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol heb fod yn hwyrach na 15 Mehefin yn y flwyddyn gwota yn union ar ôl y flwyddyn gwota y gwneir y cais am yr ailgofrestriad dros dro ar ei chyfer.

(14) Yn y rheoliad hwn —

(a) ystyr "cwota cyfanwerthol cofrestredig sy'n weddill" yw'r cwota sydd ei angen i ddarparu ar gyfer danfoniadau a wnaed gan gynhyrchwr cyn y dyddiad y newidiodd y prynwr (wedi'i addasu yn unol ag Erthygl 10(1) Rheoliad y Comisiwn); a

(b) ystyr "maint penodol" yw maint sy'n cyfateb i gymaint o gwota cyfanwerthol cofrestredig cynhyrchwr ag a nodir gan y cynhyrchwr hwnnw.

**Cyfyngiadau ar ddefnyddio cwota yn Ardal Ynysoedd yr Alban**

**24.**—(1) Ni chaiff cynhyrchwyr a phrynwyr ddefnyddio cwota sydd wedi'i gofrestru o dan reoliad 4 i ddeiliaid cwota yn un o ardaloedd Ynysoedd yr Alban ond yn erbyn gwerthiannau uniongyrchol a danfoniadau yn cynnwys llaeth a gynhyrchwyd o fewn yr ardal honno yn Ynysoedd yr Alban.

(2) Os yw rhan o fenter laeth deiliad cwota y tu allan i un o ardaloedd Ynysoedd yr Alban, fe'i trinnir at ddibenion y rheoliad hwn fel deiliad cwota o fewn un o ardaloedd Ynysoedd yr Alban os yw 50% neu ragor o'i fenter/menter laeth o fewn yr ardal honno.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys o ran ailddyrannu cwota yn unol â rheoliadau 27 a 30.